


cyngor doeth am

# GYLLID I FYFYRWYR



## Help ychwanegol — Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl 2017/18

[www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk)



cyllid myfyrwyr cymru  
student finance wales



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

## **Beth yw Cyllid Myfyrwyr Cymru?**

Tudalen 2

## **Adran 1 Canllaw am beth yw hwn?**

Tudalen 4

## **Adran 2 A ydw i'n gymwys?**

Tudalen 7

## **Adran 3 Beth allaf i ei gael?**

Tudalen 11

## **Adran 4 Sut a phryd ddylwn i wneud cais?**

Tudalen 17

## **Adran 5 Cysylltiadau a gwybodaeth ddefnyddiol**

Tudalen 20

cyllid myfyrwyr cymru  
student finance wales



## **Beth yw Cyllid Myfyrwyr Cymru?**

**Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Rydym yn darparu cyllid i fyfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y Deyrnas Unedig.**

Bydd y canllaw hwn yn helpu os ydych yn gwneud cais am gymorth ychwanegol oherwydd bod gennych chi anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol fel dyslecsia neu ddyspracsia.

Am ragor o arweiniad ac offerynnau defnyddiol, neu i wneud cais, trowch at **[www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)**


Gallwch weld diweddariadau rheolaidd hefyd ar Facebook, Twitter ac YouTube:

**f** [facebook.com/SFWales](https://facebook.com/SFWales)

**t** [twitter.com/SF\\_Wales](https://twitter.com/SF_Wales)

**YouTube** [youtube.com/SFWFILM](https://youtube.com/SFWFILM)





Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth am Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl (DSAs) ar gyfer myfyrrwyr addysg uwch newydd a myfyrrwyr addysg uwch sy'n parhau.

Fe'ch ystyrir yn anabl dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os oes gennych chi nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Grantiau yw DSAs er mwyn eich helpu talu'r costau hanfodol y mae'n rhaid i chi eu talu o ganlyniad i'ch anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol fel dyslecsia neu ddyspracsia. Ni fydd yn rhaid i chi dalu'r rhain yn ôl.

Gall DSAs eich helpu i dalu'r gost o gael unigolyn i'ch cynorthwyo, (fel rhywun i gymryd nodiadau neu ddehonglydd iaith arwyddion), offer arbenigol, costau teithio neu gostau eraill sy'n gysylltiedig ag astudio.

Diben yr wybodaeth yn y llyfryn hwn yw cynnig arweiniad yn unig, ac nid yw'n ystyried pob sefyllfa.

Os nad ydych yn byw yng Nghymru fel arfer, gallwch gael rhagor o wybodaeth am beth sydd ar gael yn y man lle'r ydych chi'n byw trwy droi at y gwefannau canlynol.

Lloegr:

**[www.gov.uk/studentfinance](http://www.gov.uk/studentfinance)**

Gogledd Iwerddon:

**[www.studentfinanceni.co.uk](http://www.studentfinanceni.co.uk)**

Yr Alban:

**[www.saas.gov.uk](http://www.saas.gov.uk)**


**A oes rhaid i mi ddweud wrth fy ngholeg neu brifysgol am fy anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol?**

Nac oes. Gallwch gael DSAs heb ddweud wrth eich prifysgol neu goleg, ond mae o gymorth os ydynt yn gwybod er mwyn i chi gael yr holl gymorth y mae angen i chi ei gael.


Os nad ydych am ddweud wrth eich prifysgol neu goleg, dylech gynnwys llythyr yn nodi hyn gyda'ch cais am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl.

Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n anghyfreithlon i brifysgolion a cholegau wahaniaethu yn erbyn myfyrwyr anabl trwy eu trin mewn ffordd lai ffafriol pan fyddant yn cynnig lleoedd ac yn darparu gwasanaethau.

Dan y Ddeddf, rhaid i brifysgolion a cholegau wneud 'addasiadau rhesymol' fel na fydd myfyrwyr anabl dan anfantaais sylweddol o'u cymharu â myfyrwyr eraill nad ydynt yn anabl.



## A YDW I'N GYMWYS?



Gallwch gael DSAs os oes gennych chi anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol sy'n effeithio ar eich gallu i astudio, ac rydych:

- yn dilyn cwrs israddedig amser llawn neu ran-amser (er enghraifft, gradd neu gwrs ar lefel HND) gan gynnwys cyrsiau dysgu o bell; neu
- rydych ar gwrs ôl-raddedig amser llawn neu ran-amser cymwys (y mae angen eich bod yn meddu ar radd neu gymhwyster cyfatebol er mwyn cael lle arno), gan gynnwys cyrsiau dysgu o bell.

Ni fydd unrhyw astudio blaenorol yn effeithio ar eich cymhwysra i gael DSAs, hyd yn oed os cawsoch chi gymorth ariannol. Fodd bynnag, os cawsoch chi DSAs ar gyfer unrhyw offer arbenigol dan gwrs blaenorol, ystyrir hyn.

Gall pobl o bob oed gael DSAs.





Nid allwch gael DSAs:

- os ydych yn cael cymorth sy'n cyfateb â DSAs gan ddarparwr cyllid arall;
- os ydych yn fyfyrwr UE;
- os ydych yn cael cyllid gan y GIG;
- os ydych yn cael cyllid gan gyngor ymchwil; neu
- os ydych yn cael cyllid gan Gyngorau Ymchwil y Deyrnas Unedig;
- os ydych yn fyfyrwr cwrs rhyngosod ar leoliad sy'n para blwyddyn lawn.


Efallai y gallech gael DSAs os ydych ar gyfnod o brofiad gwaith di-dâl yn y sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol. Os nad ydych yn gymwys i gael DSAs yn ystod eich blwyddyn ar leoliad, efallai y gallech gael help gan gynllun Mynediad i Waith.

Trowch at

[www.gov.uk/access-to-work-wales](http://www.gov.uk/access-to-work-wales)

am ragor o wybodaeth.

**Ni allwch gael DSAs ar gyfer mwy nag un cwrs ar yr un pryd.**



## Myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr y Brifysgol Agored (OU)

Er mwyn bod yn gymwys i gael DSAs, rhaid eich bod wedi cofrestru ar gwrs israddedig neu ôl-raddedig rhan-amser neu OU sy'n para o leiaf blwyddyn, ac nad yw'n cymryd mwy na phedair gwaith mor hir i'w gwblhau ag y byddai cwrs amser llawn cyfatebol yn ei gymryd. Gallwch weld gwybodaeth bellach am beth allwch ei gael a sut i ymgeisio trwy droi at [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk)

## Sut mae modd i mi ddangos fy mod yn gymwys?

Os oes gennych chi anabledd corfforol, os ydych yn ddall, yn rhannol ddall, yn fyddar, yn drwm eich clyw neu os oes gennych chi gyflwr iechyd tymor hir neu gyflwr iechyd meddwl, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth feddygol o hyn, megis llythyr gan eich meddyg neu arbenigwr.

Os oes gennych chi anhawster dysgu penodol, fel dyslecsia, rhaid i chi ddarparu adroddiad diagnostig llawn a gynhaliwyd ar ôl i chi droi'n 16 oed, ac a gynhaliwyd gan ymarferydd sy'n seicolegydd neu athro arbenigol sy'n meddu ar gymhwyster addas sydd â Thystysgrif Arfer Asesu cyfredol.

Os cynhaliwyd eich adroddiad diagnostig cyn yr oeddech yn 16 oed, rhaid i chi gael adroddiad sy'n sôn am eich sefyllfa ddiweddaraf.







Mae'r tabl isod yn dangos pa dystiolaeth feddygol y bydd angen i chi ei hanfon atom.

Ar gyfer anableddau corfforol	Adroddiad neu lythyr gan eich meddyg teulu neu arbenigwr priodol.
Ar gyfer anawsterau dysgu penodol	Adroddiad diagnostig llawn, a luniwyd ers i chi droi'n 16 oed, gan: <ul style="list-style-type: none"> <li>• seicolegydd siartredig neu ymarferydd sy'n seicolegydd neu</li> <li>• athro arbenigol sy'n dal Tystysgrif Arfer Asesu cyfredol.</li> </ul>
Ar gyfer cyflyrau iechyd tymor hir a chyflyfrau iechyd meddwl	Llythyr gan eich meddyg teulu neu Ffurflen Iechyd Meddwl, wedi'i llenwi a'i llofnodi gan feddyg neu arbenigwr cymwys arall.

Bydd yn rhaid i chi dalu am unrhyw brofion y bydd angen i chi eu cael er mwyn profi y gallwch gael DSAs. Os bydd angen prawf arnoch ond ni allwch fforddio talu amdano, efallai y gallech gael help ariannol gan eich prifysgol neu goleg.





**Mae DSAs helpu talu'r costau ychwanegol y gall fod angen i chi eu talu o ganlyniad i'ch anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol. Mae amrediad o help ar gael, a ddisgrifir yn fanylach yn yr adran hon. Mae'r symiau a nodir yn cynrychioli'r uchafswm y gallwch ei gael.**

**Ni fydd yr hyn y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref, ond mae'n dibynnu ar eich asesiad anghenion.**


**Gweler tudalen 15 am ragor o fanylion.**



## Myfyrwyr israddedig

### Lwfans Offer Arbenigol

Beth yw diben hwn?	Eich helpu i brynu unrhyw offer arbenigol rydych ei angen oherwydd eich anabledd, eich cyflwr iechyd tymor hir, eich cyflwr iechyd meddwl neu'ch anhawster dysgu penodol. Yn ogystal, Gallwch ei ddefnyddio i dalu am waith trwsio, yswiriant neu gostau gwarant estynedig yn deillio o'r ffaith eich bod yn berchen ar yr offer hwnnw.
Faint allaf i ei gael?	Gallwch gael hyd at £5,332 am y cwrs cyfan. Nid yw'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref, ond mae'n dibynnu ar eich anghenion unigol.
Sut caiff ei dalu?	Telir yr arian i gyflenwr yr offer yn uniongyrchol.
A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?	Na fydd. Fodd bynnag, os byddwch yn prynu offer cyn cychwyn ar eich cwrs ac os na fyddwch yn mynychu eich cwrs, bydd angen i chi dalu am yr offer neu ei ddychwelyd.
Unrhyw beth arall?	Y swm a nodir uchod yw'r uchafswm y Gallwch ei gael. Os bydd angen mwy o help neu gyngor arnoch, gallwch siarad â'r cynghorydd anabledd yn eich prifysgol neu goleg.




## Lwfans Helpwr Anfeddygol

<p>Beth yw diben hwn?</p>	<p>Mae'n helpu talu am weithwyr cymorth (fel darllenwyr, dehonglwyr iaith arwyddion, neu rywun i gymryd nodiadau), a chynorthwywyr anfeddygol eraill y mae angen i chi fanteisio ar eu gwasanaeth i fanteisio'n llawn ar eich cwrs.</p>
<p>Faint allaf i ei gael?</p>	<p>Os ydych yn astudio cwrs amser llawn, gallwch gael hyd at £21,181 y flwyddyn.</p> <p>Os ydych yn astudio cwrs rhan-amser, gallwch gael hyd at £15,885 y flwyddyn.</p> <p>Nid yw'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref, ond mae'n dibynnu ar eich anghenion unigol.</p>
<p>Sut caiff ei dalu?</p>	<p>Telir yr arian i gyflenwr y gwasanaeth yn uniongyrchol (er enghraifft, eich prifysgol neu goleg neu asiantaeth cymorth).</p>
<p>A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?</p>	<p>Na fydd, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar, ac os felly, efallai y gofynnir i chi ad-dalu rhywfaint ohono.</p>
<p>Unrhyw beth arall?</p>	<p>Y symiau a nodir uchod yw'r uchafswm y gallwch eu cael.</p> <p>Os bydd angen mwy o help neu gyngor arnoch, gallwch siarad â'r cynghorydd anableded yn eich prifysgol neu goleg.</p>

## Lwfans Cyffredinol

Beth yw diben hwn?	Mae'n helpu talu costau eraill sy'n gysylltiedig ag anabledd. Gallwch brynu eitemau fel cetris peiriant argraffu a phapur Braille, neu ychwanegu at y lwfansau offer arbenigol a helpwr anfeddygol yn ôl yr angen.
Faint allaf i ei gael?	<p>Os ydych yn astudio cwrs amser llawn, gallwch gael hyd at £1,785 y flwyddyn.</p> <p>Os ydych yn astudio cwrs rhan-amser, bydd modd i chi gael hyd at £1,338 y flwyddyn.</p> <p>Nid yw'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref, ond mae'n dibynnu ar eich anghenion unigol.</p>
Sut caiff ei dalu?	Fe'i telir i gyflenwr y gwasanaethau'n uniongyrchol neu i'ch cyfrif banc ar ôl i chi roi derbynneb.
A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?	Na fydd, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar, ac os felly, efallai y gofynnir i chi ad-dalu rhywfaint ohono.
Unrhyw beth arall?	<p>Y symiau a nodir uchod yw'r uchafswm y gallwch eu cael.</p> <p>Os gofynnir i chi fynychu Aseiad Anghenion Astudio, gallwch ddefnyddio'r Lwfans Cyffredinol talu am yr asesiad ac unrhyw gostau teithio er mwyn mynychu.</p> <p>Os bydd angen mwy o help neu gyngor arnoch, gallwch siarad â'r cynghorydd anabledd yn eich prifysgol neu goleg.</p>



## Lwfans Teithio

Beth yw diben hwn?	Mae'n helpu talu unrhyw gostau teithio ychwanegol y gallai fod angen i chi eu talu er mwyn cyrraedd eich prifysgol neu goleg oherwydd eich anabledd (er enghraifft, os bydd angen i chi deithio mewn tacsï oherwydd bod eich anabledd yn eich atal rhag teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus). Ni fyddwch yn gymwys i gael help i dalu costau teithio bob dydd y byddai disgwyl i unrhyw fyfyrwr eu talu. Yn ogystal, efallai y bydd yn rhaid i chi ddarparu derbynebau.
Faint allaf i ei gael?	Gallwch hawlio am wariant rhesymol ar gostau teithio ychwanegol. Nid yw'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref, ond mae'n dibynnu ar eich anghenion unigol.
Sut caiff ei dalu?	Telir yr arian i gyflenwr y gwasanaethau'n uniongyrchol (er enghraifft, cwmni tacsï) neu i'ch cyfrif banc. Os ydych yn hawlio gan ddefnyddio 'ffurflen ad-dalu costau' sydd ar gael trwy droi at <b><a href="http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk">www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk</a></b> , cofiwch gadw unrhyw dderbynebau neu anfonebau fel tystiolaeth.
A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?	Na fydd, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar, ac os felly, efallai y gofynnir i chi ad-dalu rhywfaint ohono.
Unrhyw beth arall?	Os bydd angen mwy o help neu gyngor arnoch, gallwch siarad â'r cynghorydd anabledd yn eich prifysgol neu goleg.

## Beth yw Aseiad Anghenion Astudio?

Mae Aseiad Anghenion Astudio yn ein helpu i ddysgu sut y gallwn gefnogi eich anghenion yn ystod eich cyfnod yn y brifysgol neu'r coleg.

Ar ôl i ni gael eich ffurflen gais a'ch tystiolaeth feddygol, efallai y byddwn yn gofyn i chi drefnu Aseiad Anghenion Astudio.


Nid prawf yw hwn – ond eich cyfle chi i gael sgwrs anffurfiol gyda chynghorydd arbenigol am eich anabledd a'i effaith ar eich astudiaethau.

Yn ystod eich Aseiad Anghenion Astudio, bydd eich cynghorydd yn gwerthuso pa fath o gymorth mae angen i chi gael i'ch cynorthwyo yn ystod eich astudiaethau.

Mae hyn yn helpu paratoi adroddiad sy'n argymhell unrhyw offer arbenigol neu gymorth ychwanegol a allai helpu gyda'ch astudiaethau.

Dim ond am un Aseiad Anghenion Astudio y byddwn yn talu amdano oni bai bod eich cwrs neu'ch anghenion yn newid yn sylweddol. Os ydych yn anfodlon â'ch Aseiad Anghenion Astudio cychwynnol, dylech gysylltu â ni trwy anfon e-bost at **SFW\_DSA\_Team@slc.co.uk**

Gallwch wneud cais am DSAs cyn gynted ag y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor. Gyntaf yn y byd y byddwch yn ymgeisio, y mwyaf tebygol yw hi y bydd gennych chi bopeth y bydd angen i chi ei gael yn barod ar gyfer dechrau'ch cwrs.



## **Myfyrwyr ôl-raddedig amser llawn a rhan-amser**

Gallwch gael lwfans unigol o hyd at £10,590 y flwyddyn. Gallwch ddefnyddio hwn i dalu am offer arbenigol, helpwyr anfeddygol, costau teithio ychwanegol neu gostau eraill sy'n gysylltiedig â'ch cwrs. Bydd swm y DSAs y byddwch yn eu cael yn dibynnu ar eich Asesiad Anghenion Astudio.

Fel arfer, ni fydd angen i fyfyrwyr ôl-raddedig fynychu Asesiad Anghenion Astudio newydd os ydynt wedi cael un yn barod pan oeddent yn astudio cwrs israddedig.

Gall myfyrwyr ar gyrsiau Tystysgrif Addysg Ôl-raddedig (TAR) wneud cais am y DSAs a ddyfarnir i israddedigion, felly ni fyddant yn gymwys i gael DSAs ôl-raddedig.

## **Cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA)**

Os ydych chi eisoes ar gwrs HCA, gallwch barhau i wneud cais am yr un pecyn o DSAs ag yr ydych wedi'i gael yn flaenorol.


Gall myfyrwyr a gychwynnodd ar gwrs HCA amser llawn ar neu ar ôl 1 Medi 2010 wneud cais am y pecyn cymorth amser llawn, gan gynnwys y pecyn DSAs amser llawn.

Gall myfyrwyr a gychwynnodd ar gwrs HCA rhan-amser ar neu ar ôl 1 Medi 2010 ymgeisio am y pecyn cymorth i fyfyrwyr rhan-amser, gan gynnwys DSAs rhan-amser.

## **Budd-daliadau**

Ni all y rhan fwyaf o fyfyrwyr amser llawn gael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm megis y Credyd Cynhwysol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu Fudd-dal Tai. Fodd bynnag, efallai y gallai grwpiau penodol (gan gynnwys rhieni sengl, cyplau sy'n fyfyrwyr ac y mae ganddynt blant dibynnol a rhai myfyrwyr anabl) gael budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm yn ystod y cyfnod pan fyddant yn astudio. Bydd y Ganolfan Byd Gwaith ac adran Budd-dal Tai eich awdurdod lleol yn ystyried unrhyw Fenthyciad Cynhaliath (a rhai grantiau i fyfyrwyr) y gallwch eu cael. Ni ystyrir y Grant Cymorth Arbennig a DSAs. Am ragor o wybodaeth, trowch at **[www.gov.uk](http://www.gov.uk)**.





## Myfyrwyr israddedig

### CAM 1

#### Myfyrwyr amser llawn newydd

Ar ôl i chi ymgeisio am eich prif gyllid i fyfyrwyr, ac ar ôl i chi ddweud wrthym eich bod yn dymuno gwneud cais am DSAs, byddwn yn anfon ffurflen gais atoch.

Os mai dim ond DSAs yr hoffech wneud cais amdanynt, a dim unrhyw fath arall o gyllid i fyfyrwyr, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais am DSAs, y gallwch ei lawrlwytho o [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk)

#### Myfyrwyr rhan-amser newydd

Gallwch wneud cais am DSAs trwy lenwi ffurflen gais am DSAs, sydd ar gael o [www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk)

### CAM 2

Ar ôl i chi wneud cais am DSAs, efallai y byddwn yn gofyn i chi drefnu Aseiad Anghenion Astudio i ganfod yr union offer a chymorth y mae angen i chi ei gael.

Os byddwn yn gofyn i chi wneud hyn, dylech drefnu'r aseiad hwn cyn gynted ag y bo modd. I chwilio am eich canolfan Aseiad Anghenion Astudio agosaf, trowch at [www.dsa-qag.org.uk](http://www.dsa-qag.org.uk)

### CAM 3

Byddwn yn cadarnhau pa offer arbenigol a chymorth arall y gall DSAs dalu amdanynt.

Yn ogystal, byddwn yn rhoi cyfarwyddiadau i chi i archebu unrhyw offer arbenigol neu drefnu cymorth arall.

## CAM 4


Ar ôl i ni gael canlyniadau'ch Asesiad Anghenion Astudio, byddwn yn eich hysbysu a fydd modd i Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl dalu am unrhyw offer arbenigol a chymorth arall a argymhellir yn eich adroddiad Asesiad Anghenion Astudio. Yn ogystal, byddwn yn rhoi cyfarwyddiadau i chi i archebu offer neu drefnu cymorth arall.

Fel arfer, ni fyddwn yn mynnu bod myfyrrwyr yn ailymgeisio am DSAs bob blwyddyn. Pan fydd y myfyriwr yn gwneud cais am gyllid i fyfyrrwyr, dylai roi tic yn y blwch i nodi ei fod yn dymuno gwneud cais am DSAs yn ystod blynyddoedd dilynol eu cwrs.

Os bydd unrhyw rai o'u hamgylchiadau'n newid, megis manylion y cwrs neu'r brifysgol neu goleg, dylai roi gwybod i ni.

Bydd angen i fyfyrrwyr ôl-raddedig, myfyrrwyr rhan-amser a myfyrrwyr sy'n gwneud cais am DSAs yn unig, lenwi cais (ffurflen lawn DSA1) bob blwyddyn – ond ni fydd angen iddynt ailgyflwyno'u tystiolaeth oni bai bod eu hanghenion yn newid.





## Myfyrwyr ôl-raddedig

Os ydych chi'n fyfyrwr ôl-raddedig ac os ydych yn dymuno gwneud cais am DSAs, dylech lenwi ffurflen ymgeisio am DSAs (DSA1) a'i hanfon atom.

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen o **[www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)**

## Myfyrwyr GIG

Os ydych yn cael cyllid gan y GIG, gallwch droi at y wefan sef **<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/955/tudalen/66243>**


Os ydych yn cael bwrsariaeth gwaith cymdeithasol israddedig, dylech wneud cais i ni.

## Y rhai ar secondiad o'r GIG

Os ydych yn cael eich cyflogi gan GIG ac os byddwch yn cael eich secondio (eich trosglwyddo dros dro) i gwrs gofal iechyd, ni fyddwch yn gymwys i gael bwrsariaethau neu DSAs gan GIG fel arfer. Fodd bynnag, gallwch gael DSAs gennym ni os ydych yn bodloni'r amodau cymhwystra.

## Cynghorau Ymchwil

Os ydych yn cael cyllid gan gynghorau ymchwil, gallwch droi at y wefan sef **[www.rcuk.ac.uk/skills/training](http://www.rcuk.ac.uk/skills/training)** am ragor o wybodaeth ynghylch sut i wneud cais am DSAs.



## **Cyllid Myfyrwyr Cymru**

Am ragor o arweiniad ac offerynnau defnyddiol neu i wneud cais, trowch at **[www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk)**

Gallwch ein ffonio hefyd ar **0300 200 4050**

(ffôn testun: **0300 100 1693**) rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener

## **Grŵp Sicrhau Ansawdd Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSA-QAG)**

Nodir manylion eich canolfan Asesiad Anghenion Astudio agosaf ar wefan DSA-QAG sef **[www.dsa-qag.org.uk](http://www.dsa-qag.org.uk)**

## **Disability Rights UK**

Mae Disability Rights UK yn cynnal llinell gymorth am ddim sy'n darparu cyngor a gwybodaeth i fyfyrwyr anabl, ac mae'n cyhoeddi 'Into Higher Education', canllaw blynyddol i fyfyrwyr anabl sy'n ystyried dilyn cwrs addysg uwch. Trowch at wefan Disability Rights UK sef **[www.disabilityrightsuk.org.uk](http://www.disabilityrightsuk.org.uk)**

Ffôn: **0800 328 5050** (11am tan 1pm ar ddydd Mawrth a dydd Iau.)

E-bost: **[students@disabilityrightsuk.org](mailto:students@disabilityrightsuk.org)**



## **Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS)**

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar wefan yr NUS sef [www.nus.org.uk/nus-wales](http://www.nus.org.uk/nus-wales)

## **Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Ariannol Myfyrwyr (NASMA)**

Mae NASMA yn elusen sy'n gweithio i helpu myfyrwyr trwy ddarparu cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant. Gallwch gael rhagor o wybodaeth trwy droi at [www.nasma.org.uk](http://www.nasma.org.uk)

## **Gwasanaeth Cymorth Cyngori ar Gydraddoldeb (EASS)**

Gall llinell gymorth EASS roi gwybodaeth ac arweiniad am faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu a hawliau dynol.


Ffôn: **0808 800 0082**

Ffôn testun: **0808 800 0084**

Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 7pm ar ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 10am a 2pm ar ddydd Sadwrn.

Trowch at wefan EASS sef [www.equalityadvisoryservice.com](http://www.equalityadvisoryservice.com)





Gallwch lawrlwytho rhagor o gopiâu o'r canllaw hwn ar-lein trwy droi at **[www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)**.

Gallwch hefyd archebu ffurflenni a chanllawiau ar ffurf Braille, print bras neu sain trwy e-bostio eich manylion ynghyd â ffa ffurf a fformat yr hoffech at **[brailleandlargefonts@slc.co.uk](mailto:brailleandlargefonts@slc.co.uk)** neu gallwch ein ffonio ni ar **0141 243 3686**. Sylwer, dim ond gyda cheisiadau am ffurfiau amgen ffurflenni a chanllawiau y bydd modd i'r cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio gyda nhw.

WG30881

ISBN: 978-1-4734-8527-3

© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr HMSO 2017.

Cynhyrchwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr ar ran Llywodraeth Cymru.

Gellir atgynhyrchu darnau o'r ddogfen hon at ddibenion ymchwil anfasnachol, addysg neu hyfforddiant, ar yr amod y caiff y ffynhonnell ei chydabod. Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall, cysylltwch â: **[HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk](mailto:HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk)**

Diben y llyfryn hwn yw cynnig arweiniad yn unig, ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith.